# Llwybr y Gymraeg

Gan David O. Roberts



Y
Trydydd Llyfr

Hughes a'i Fab a'r Cwmni Cyhoeddi
Addysgol · Wrecsam a Chaerdydd

# Llwybr y Gymraeg

## III

Gan

David O. Roberts

Hughes a'i Fab,
a'r
Educational Publishing Company
Wrecsam a Chaerdydd

# RHAGAIR

Y "CYNLLUN NEWYDD YN Y GYMRAEG" yw cefndir y gwersi a geir yn LLWYBR Y GYMRAEG 1, 2 a 3. Disgwylir bod pob plentyn yn gwybod cynnwys LLWYBR Y GYMRAEG 1 a 2 fel sylfaen i'r datblygiad sydd yn y llyfr hwn.

COFIER yr egwyddor anhraethol bwysig fod yn rhaid i'r plant yn y safonau hyn GLYWED a DWEUD y gwersi cyn eu trafod o'r llyfr. Dysgu SIARAD Cymraeg yw'r nod, a RHAID GWYBOD y gwersi trwy'r glust ac ar LAFAR cyn eu GWELD â'r llygad. CADARNHAU'R gwaith llafar yw'r darllen a'r ysgrifennu ym mhob gwers. Felly trefn pob gwers a phob ran o bob gwers yw:

1. GWRANDO ar yr athro.
2. SIARAD yr ymarferiadau gyda'r athro.
3. DARLLEN.
4. YSGRIFENNU (1) gwaith ar y bwrdd-du, a (2) ar y llyfrau ysgrifennu.

Nid wyf wedi nodi "arddywediadau" yn y llyfr hwn. Dewiser rhan o bob gwers. "Ychydig yn aml" yw'r rheol euraid ynglŷn â hyn.

Y mae'r ATODIAD ar "YR ESCIMO" yn braw teg ar gynnwys y gwersi ac ar feistrolaeth y plant ohono.

NODIAD. Rhag torri ar draws cynllun y llyfr o gael pob gwers ar ddwy dudalen yn wynebu ei gilydd, rhoddir yr ymarferiad olaf o Wersi 12 a 16 ar dudalen 50.



[Y Llun gan Llew. Morgan, Ystradgynlais.

Yr Arlunydd Bach.

## GWERS 1. (UN.)

*ENWAU.*

Dyma *enwau'r* plant sydd yn y darlun. Rhisiart Morgan yw enw'r bachgen. Gwen Morgan yw enw'r ferch (eneth).

Dyma enwau'r *pethau* sydd yn y darlun:

| | | |
|---|---|---|
| gardd—yr ardd hon. | Yr isl hwn. | Y brws peintio hwn. |
| llwyn—y llwyn hwn. | Y stôl hon. | Y bwrdd cynfas hwn. |
| llwyn o goed. | Y palet hwn. | |

*Darllenwch:*

Dyma lun bachgen a merch (geneth) wrth lwyn o goed yn yr ardd—yn yr awyr agored. Rhisiart yw enw'r bachgen, a Gwen yw enw'r ferch (eneth). Y mae Rhisiart yn eistedd ar stôl ac y mae Gwen yn sefyll o'i flaen. Rhwng Gwen a Rhisiart y mae isl a bwrdd cynfas arno. Rhisiart yw'r arlunydd, ac y mae'n tynnu llun ei chwaer ar y cynfas.

Yn ei law chwith (aswy) y mae palet ac y mae ei fys bawd trwy'r twll sydd ynddo. Yn ei law dde y mae brws peintio. Y mae Rhisiart yn hoffi tynnu llun Gwen.

*Disgrifeiriau*—geiriau'n disgrifio—yn dweud SUT blant yw'r rhain.

Plant pert; plant tlws; bachgen tlws; bachgen pert.
merch bert; merch dlos; geneth dlos.
Bachgen pert (tlws) yw Rhisiart.
Y mae ef yn fachgen tlws (pert).
Merch bert yw Gwen. Geneth dlos yw Gwen.
Y mae hi'n ferch bert. Y mae hi'n eneth dlos.

### ACTAU.

*Cwestiwn.* Beth y maent yn ei wneud?

*Ateb.* Y mae ef yn *eistedd* ar stôl.
Y mae ef yn *tynnu* llun ei chwaer.
Y mae hi'n *sefyll* wrth yr isl.

*Cwestiynau.* Copīwch a gorffennwch yr atebion.

(*a*) AI? Yr ateb yw "IE" neu "NAGE."

Ai yn y tŷ ynteu yn yr ysgol y mae'r plant?

——; nid yn y tŷ nac yn yr ysgol y maent hwy. Yn yr ardd y maent hwy.

Ai Rhisiart sy'n sefyll?

——; nid Rhisiart sy'n sefyll. Gwen sy'n sefyll.

Ai eistedd y mae hi?

——; nid eistedd y mae hi. S—— y mae hi.

(*b*) A YDYW? Yr ateb yw "YDYW" neu "NAC YDYW."

A ydyw Rhisiart yn eistedd?

Nac ——; nid yw ef yn eistedd, ond y mae'n sefyll.

Atebwch y cwestiynau hyn:

A ydyw Gwen yn eistedd?

A ydyw Rhisiart yn eistedd ar gadair?

*Ymarferiadau.*

1. Atebwch y cwestiynau hyn (1) ar lafar, (2) ysgrifennwch yr atebion.

(1) Beth yw enwau'r plant sydd yn y darlun hwn?
(2) Ble mae'r plant?
(3) Beth y maent yn ei wneud?
(4) Ai Gwen sy'n tynnu'r llun?
(5) A ydyw Rhisiart yn sefyll i dynnu'r llun?
(6) A ydyw Gwen yn eistedd?





2. Ysgrifennwch y paragraff hwn yn llawn—llenwch y bylchau.

Dyma lun —— a —— wrth lwyn o goed yn yr ——, yn yr awyr agored. Rhisiart yw —— bachgen a Gwen —— —— ——. Y mae Rhisiart yn —— ar —— ac y mae Gwen yn —— o'i ——. Rhwng Gwen a Rhisiart y mae —— a —— —— yr arlunydd arno. Rhisiart yw'r —— ac y mae'n tynnu —— Gwen ar y ——.

Wedi i chwi orffen ysgrifennu'r paragraff hwn, trowch yn ôl at y paragraff i'w ddarllen, ar y dechrau a chymherwch eich paragraff chwi â hwnnw.

3. Dychmygwch eich bod wedi bod gyda Rhisiart a Gwen, ac wedi mynd adref eich bod yn siarad amdanynt gyda'ch tad.

Darllenwch a dysgwch yr YMGOM yma:

*Y Tad:* Ble'r wyt ti wedi bod, Arthur?

*Arthur:* Yr wyf i wedi bod gyda Rhisiart.

*Y Tad:* Beth oedd ef yn ei wneud heddiw?

*Arthur:* O! yr oedd ef yn peintio fel arfer.

*Y Tad:* Beth oedd ef yn ei beintio heddiw?

*Arthur:* Yr oedd yn peintio llun Gwen.



[Y Llun gan Llew. Morgan, Ystradgynlais.

Yr Arlunydd Bach.



# Rhannau'r Corff a Dillad.

Edrychwch ar y plant yn y darlun eto.

Dywedwch a dysgwch.

| | | | |
|---|---|---|---|
| ei gorff ef. | ei ben ef. | ei draed ef. | ei law ef. |
| ei chorff hi. | ei phen hi. | ei thraed hi. | ei llaw hi. |

*Cwestiwn.* Beth y mae Gwen yn ei wisgo?

*Ateb.* Y mae hi'n gwisgo | bonet bert (dlos) ar ei phen.
ffrog bert (dlos) am ei chorff.
esgidiau bach am ei thraed.

Beth y mae ef yn ei wisgo?

Y mae ef yn gwisgo | crys a throwsus am ei gorff.
esgidiau bach am ei draed.

*Darllenwch* y brawddegau hyn yn dweud beth *nad yw*'r plant yn ei wisgo. Dyma frawddegau negyddol—yn dechrau â'r gair NID.

Nid yw hi'n gwisgo hosanau am ei thraed.

Nid yw ef | yn gwisgo hosanau am ei draed.
yn gwisgo cap ar ei ben.
yn gwisgo tei yn ei goler.

Nid yw'r plant yn gwisgo fel hyn yn y Gaeaf, ond ar ddiwrnod braf yn yr Haf.

*Cwestiwn arall.*

A OES? Yr ateb yw "OES" neu "NAC OES."

*Gorffennwch yr atebion.*

A oes cap ar ei ben ef?

——— ———; nid oes ——— ——— ——— ——— ———.

A oes bonet ar ei phen hi ?

——— ; y mae ——— ——— ——— ——— ———.

A oes hosanau am ei draed ef ?

——— ——— ; nid ——— hosanau am ——— ——— ———.

A oes hosanau am ei thraed hi ?

——— ——— ; nid ——— hosanau am ——— ——— ———.

A oes palet yn ei law ef ?

A oes palet yn ei llaw hi ?

A oes cot amdano ef ?

A oes tei yn ei goler ?

## *DISGRIFEIRIAU.*

SUT ? golau—tywyll ; cyrliog—syth.

| | |
|---|---|
| Sut wallt sy ganddo ef ? | Gwallt golau sy ganddo ef. |
| Sut wallt sy ganddo ef ? | Gwallt cyrliog sy ganddo ef. |
| | Gwallt golau cyrliog sy ganddo ef. |
| Sut wallt sy ganddi hi ? | Gwallt tywyll sy ganddi hi. |
| | Gwallt syth sy ganddi hi. |
| | Gwallt tywyll syth sy ganddi hi. |

*Ymarferiadau.*

1. Gorffennwch y brawddegau negyddol hyn :

Nid oes cap ——— ——— ——— ———.

Nid yw ef yn gwisgo cot ——— ——— ———.

Nid yw'r plant yn gwisgo ——— am eu traed.





2. *Copïwch y cwestiynau hyn ac atebwch hwynt :*

(1) Beth y mae Gwen yn ei wisgo ar ei phen ?

(2) A ydyw Rhisiart yn gwisgo cap ar ei ben ?

(3) Ai het sydd ar ben Gwen ?

(4) A oes tei yng ngholer Rhisiart ?

(5) Sut wallt sy gan Gwen ?

(6) Sut wallt sy gan Rhisiart ?

(7) Beth sydd yn ei law ?

3. Dywedwch ac ysgrifennwch y cwestiynau yn 2, gan osod "oedd" yn lle "mae," "oes," "sydd," "ydyw," fel hyn :

Beth yr oedd yn ei wisgo ar ei phen ?

Ewch ymlaen.


Yna atebwch y cwestiynau.

4. *Copïwch :* fy nghorff i ; fy mhen i ; fy nghoesau i ; fy nhraed i ;
fy nghot i ; fy nghap i ; fy nhrowsus i.
fy hosanau i ; f'esgidiau i.

Gorffennwch y brawddegau hyn :

| | | | |
|---|---|---|---|
| 'Rwy'n gwisgo fy | enwau'r dillad | ar neu am | fy (rhan o'ch corff). |

# Lle.




1. *Enwau.*

Dysgwch enwau'r pethau sydd yn y darlun—yn UNIGOL a LLUOSOG.

| | |
|---|---|
| ffordd—ffyrdd ; y ffordd hon | heol—heolydd ; yr heol hon. |
| perth—perthi ; y berth hon. | coeden—coed ; y goeden hon. |
| clwyd—clwydi ; y glwyd hon. | llidiard—llidiardau ; y llidiart hwn. |

2. *Ble mae ?* Darllenwch y brawddegau hyn. Y mae pob un ohonynt yn dweud ble mae popeth sydd yn y darlun.

(1) Y mae bachgen a merch (geneth) *ar* y ffordd.
(2) *Rhwng* y bachgen a'r ferch (eneth) y mae ci.
(3) Y mae'r bachgen *o flaen* y ci.
(4) Y mae'r ferch (eneth) *y tu ôl i*'r ci.





(5) *Wrth ochr* y ffordd y mae perth.
(6) *Yn* y berth y mae clwyd (llidiart).
(7) Y mae merch fach (geneth fach*) *ar* y glwyd.
(8) Y mae ei thad yn pwyso'*n erbyn* y glwyd (llidiart).
(9) *Yr ochr arall* i'r glwyd (llidiart) y mae cae a choeden.
(10) *Yn* y cae y mae anifeiliaid ac *ar* y goeden y mae aderyn.

3. *Cwestiwn arall.*

Beth sydd ar (yn, wrth, rhwng, o flaen, y tu ôl i, yn erbyn) ?

Beth sydd ar y ffordd ? Bachgen a merch (geneth) sydd ar y ffordd.

Beth sydd o flaen y ferch (yr eneth) ?

Gofynnwch gwestiynau fel hyn am y pethau eraill, ac atebwch y cwestiynau.

4. Ysgrifennwch Ble mae ? a Beth sydd ? ar eich llyfr ysgrifennu, ac yna ysgrifennwch frawddegau (1) i (10) mewn dwy ffordd fel hyn :

(1) Y *mae* bachgen a merch (geneth) ar y ffordd.
Bachgen a merch (geneth) *sydd* ar y ffordd.
Ewch ymlaen.

5. Darllenwch ac ysgrifennwch frawddegau ymarferiad 4 gan osod "oedd" yn lle "mae" a "sydd."

*Dywedir "geneth bach" yn y Gogledd.

## GWERS 4. (PEDAIR.)


# Lle.



Cath ar y mat.



Ceffyl yn y stabl.



Asyn ar y traeth.



Robin goch ar y gangen yn yr eira.



## Y BEDWAREDD WERS.

# Lle.

*Ymarferiadau.*

Gwnewch frawddegau o'r geiriau hyn a roddir am y darluniau.

*Darlun* 1. Y Darlun cyntaf.

Dyma, lun, cath, mat, ar.
mat, o dan, llawr, ar, y gath.

*Darlun* 2. Yr ail ddarlun.

y stabl, lun, Dyma, yn, ceffyl.
ffrwyn, ei wddf a'i ben, ac, hefyd, coler, am.
Nid, cyfrwy, oes, ar ei gefn.
Nid oes, y stabl, yn, gyda'r, neb, ceffyl.

*Darlun* 3. Y Trydydd darlun.

Dyma, asyn, lun.
ar lan y môr, traeth, asyn.
cyfrwy, ei ben a'i wddf, ei gefn, ffrwyn, am, ar
Nid oes, na dim, traeth, neb, ond, ar, yr asyn.

*Darlun* 4. Y Pedwerydd darlun.

robin goch, lun, Dyma.
yw, Gaeaf, hi.
y ddaear, coed, eira, ar.
robin goch, gangen, ar, sefyll.

GWERS 5. (PUMP.)

# Maint.



Dyma lun dafad fawr ac oen bach.
Y mae'r ddafad yn fawr.
Y mae'r oen yn fach.



Dyma lun dwy gwningen o flaen y cwt.
Y mae un gwningen yn fawr ac y mae'r gwningen arall yn fach.



Dyma lun plisman tal a bachgen byr.
Y mae'r plisman yn dal.
Y mae'r bachgen yn fyr.



Y mae Dilys yn dal ac yn denau.
Y mae Ann yn fer ac yn dew.



## Y BUMED WERS.

1. *Dysgwch.*

mawr—yn fawr; tal—yn dal; tew—yn dew.
bach —yn fach; byr—yn fyr; tenau—yn denau.
—yn fer

2. *Cwestiwn.*

Beth yw maint y (peth)?

Y mae'r (peth) yn fawr neu'n fach, yn hir neu'n fyr, yn dal neu'n fyr, yn dew neu'n denau.

Beth yw maint yr eliffant?

Y mae'r eliffant yn fawr?

Ysgrifennwch enwau | rhywbeth mawr a rhywbeth bach.
bachgen tal neu ferch (eneth) dal.
bachgen byr neu ferch (eneth) fer.
rhywun tew neu rywun tenau.

ac yna ysgrifennwch barau o frawddegau amdanynt fel hyn:

Eliffant; Y mae'r eliffant yn anifail mawr.
Y mae'r eliffant yn fawr.

3. Gofynnwch y cwestiwn sydd yn y wers hon am y pethau hyn: yr ystafell, y llyfr hwn, y cwpwrdd sydd yn eich ystafell; y pin sgrifennu sydd yn eich llaw; pêl droed; pêl ping pong; eich tad; eich mam; eich capel neu'ch eglwys; eich tŷ; plisman.

## GWERS 6. (CHWECH.)


# Ffurf.



Dyma fodrwy gron.
Y mae'r fodrwy hon yn gron.
Modrwy fawr gron yw hon.



Dyma dwbyn crwn.
Y mae'r twbyn yn grwn.



Dyma focs hirsgwâr.
Y mae'r bocs yn hirsgwâr.
Bocs mawr hirsgwâr yw hwn.



Dyma gwpan crwn (gron).
Y mae'r cwpan hwn yn grwn.
Cwpan mawr crwn yw hwn.



## Y CHWECHED WERS.

1. *Dysgwch.*

sgwâr—yn sgwâr; hirsgwâr—yn hirsgwâr;
crwn—yn grwn neu yn gron.
Y mae'r peth hwn yn grwn ac y mae hon yn gron.

2. *Cwestiwn.*

Beth yw ffurf y (peth)?
Y mae'r peth yn sgwâr **neu'n hirsgwâr, yn grwn** neu'n **gron.**

*Atebwch y cwestiynau hyn:*

A oes rhywbeth sgwâr (hollol sgwâr) yn eich ystafell chwi **yn** yr ysgol?

Os oes, ysgrifennwch frawddeg fel hon:
Oes; y mae'r ——— sydd yn yr ystafell hon yn sgwâr.

Os nad oes (onid oes), copïwch y frawddeg hon:
Nac oes; nid oes dim byd sgwâr yn yr ystafell hon.

A oes pethau crwn yn eich ystafell?
A oes pethau hirsgwâr yn eich ystafell?
A oes pethau crwn ar eich dillad?

3. *Beth yw ffurf y pethau hyn?*


Gofynnwch y cwestiwn am y pethau hyn, ac atebwch y cwestiwn:

y ffenestr (hon), y llyfr (hwn), y pot-inc (hwn), bwlin neu ddwrn y drws (hwn), wyneb y cloc (hwn), y bwrdd-du, y darluniau sydd ar y wal (mur), y bêl (hon), y tyllau sydd yn yr isl, y geiniog (hon), y swllt (hwn), y bat criced (hwn).

GWERS 7. (SAITH.)

# Lliw.

1. TROWCH yn ôl i wers 15—i'r bymthegfed wers (yn *Llwybr y Gymraeg*, Llyfr 1), tudalen 34, ac ewch dros y wers honno unwaith eto. Yna ysgrifennwch y brawddegau'n disgrifio'r pethau sydd yn y darluniau.



Dyma lun pêl â (sawl ?) lliw arni.
Beth yw'r lliwiau ?
C . . . , a g . . . , a m . . . .
yw'r lliwiau sydd arni.



Dyma lun llong hwyliau ar y môr.
Y mae'r môr yn . . .
Y mae'r llong yn . . . . .
Y mae'r hwyliau'n . . .

2. *Cwestiwn.*

Beth yw lliw'r (peth) ?
Atebwch y cwestiynau hyn:
Beth yw lliw'r glo ? Beth yw lliw'r eira ?
Beth yw lliw eich esgidiau a'ch hosanau ?
Y mae f'esgidiau'n . . . a'm hosanau'n . . .

Gofynnwch y cwestiwn am y pethau hyn ac yna atebwch y cwestiynau: blodeuyn y daffodil, yr inc sydd yn y pot-inc yn eich desg, clawr y llyfr hwn, bron y robin, eich dillad.



## Y SEITHFED WERS.



*Dysgwch.*

het lwyd, cot lwyd, trowsus llwyd, esgidiau du, neisied boced, (cadach poced) goch â smotiau gwyn arni, barf hir wen.


Yn awr dywedwch ac yna ysgrifennwch enwau'r lliwiau iawn yn y cylchau yn y disgrifiad hwn o Hen Wr y Balwnau.

3. HEN ŴR Y BALWNAU

Dyma lun " Hen Wr y Balwnau " 'n mynd i'r ffair.
Y mae ganddo het . . . . , cot . . . . , trowsus . . . . . ac esgidiau . .
Y mae ganddo wallt . . . . . a barf . . .
Y mae'n cario (rhif) balŵn i'w gwerthu yn y ffair.
Y mae un balŵn yn . . . . . , un arall yn . . . . . . , un arall yn . . . . . a'r llall yn . . . . . . . .

4. Dychmygwch eich bod wedi gweld yr hen ŵr yma yn y ffair. Disgrifiwch ef gan osod " oedd " yn lle " mae " yn y brawddegau yn ymarferiad 3.

# Deunydd.



Bocs pren.



Bag lledr.



Cloch bres. Dolen bren.



Modrwy aur.







1. *Dysgwch.*

pren — o bren.
pres — o bres.
lledr — o ledr.
aur — o aur.
cerrig — o gerrig.

2. *Cwestiwn.* O beth y mae hwn wedi'i wneud ?
O beth y mae hon wedi'i gwneud ?

*Gorffennwch y brawddegau hyn a dysgwch hwynt ar eich cof.*

Y mae'r bocs hwn wedi'i wneud o . . . .
Y mae'r bag hwn wedi'i wneud o . . . .
Y mae'r fodrwy hon wedi'i gwneud o . . .
Y mae'r gloch hon wedi'i gwneud o . . . .
Y mae'r bont hon wedi'i gwneud o . . . . . .

3. Gofynnwch y cwestiwn sydd yn y wers hon am y pethau hyn ac yna atebwch y cwestiynau.

y llyfr hwn, y cwpwrdd hwn, y ddesg hon, y wal hon (y mur hwn), y ffenestr hon (o wydr), y swllt hwn (o arian), y gliced sydd ar y ffenestr, y bwlin neu'r dwrn sydd ar y drws (hwn).

4. Dysgwch: *Deunydd eich dillad.*

Y mae fy nghôt a'm gwasgod a'm trowsus wedi'u gwneud o frethyn.
Y mae fy hosanau wedi'u gwneud o wlân.
Y mae f'esgidiau wedi'u gwneud o l . . .
Y mae fy ffrog wedi'i gwneud o (gotwm, frethyn, liain).

# Adolygiad—Disgrifio.

1. Erbyn hyn yr ydych wedi dysgu sut i ofyn cwestiynau a sut i ddweud beth yw (1) lle, (2) maint, (3) ffurf, (4) lliw a (5) deunydd pethau.

A ydych chwi'n cofio'r cwestiynau ?

Dyma i chwi unwaith eto y pum cwestiwn gyda'i gilydd am y llong yma:



Ble mae'r llong ?

Beth yw maint y llong ?

Beth yw ffurf y llong ?

Beth yw lliw'r llong ?

O beth y mae'r llong hon wedi'i gwneud ?

*Dyma'r atebion :*

Y mae'r llong ar y môr.
Llong fawr yw hi.
Y mae'r llong yn hirgul (hir a chul).
Y mae'r llong yn frown a'r hwyliau'n wyn.
Y mae'r llong wedi'i gwneud o bren a'r hwyliau o liain neu gywarch (*hemp*).

*Paragraff.* Y mae llong hwyliau fawr ar y môr. Y mae'n llong hirgul wedi'i gwneud o bren a phaent brown arni, ac y mae'r hwyliau wedi'u gwneud o liain gwyn.





Gofynnwch bum cwestiwn am bob un o'r pethau sydd yn y darluniau hyn. Atebwch y cwestiynau ac ysgrifennwch baragraffau.



Bag lledr, Dolen ledr, Clo aur.



Twbyn pren â chylch haearn amdano.



Pot pridd ar y ddaear. Nid oes dim yn y pot blodau.



Drws pren. Grisiau cerrig. Mat haearn.

## GWERS 10. (DEG.)



[Y Llun gan Llew. Morgan, Ystradgynlais.

Chwarae Siglen.

# Y DDEGFED WERS.

1. *ENWAU.*

Dysgwch enwau'r pethau sydd yn y darlun hwn—yn unigol a lluosog.

plentyn—plant; y plentyn hwn. coeden—coed; y goeden hon.
merch—merched; y ferch hon. deilen—dail; y ddeilen hon.
geneth—genethod; yr eneth hon. siglen—siglennau; y siglen hon.
rhaff—rhaffau; y rhaff hon.

Ysgrifennwch frawddegau yn dweud ble mae'r pethau hyn.

2. Darllenwch y brawddegau hyn sy'n dweud beth yw enwau'r merched (genethod) a pha beth y maent yn ei wneud. (Y mae'r ACTAU mewn llythrennau *italig.*) Dangoswch y merched (genethod) wrth eu henwau.

Y mae Dilys yn *eistedd* ar y siglen sy'n hongian o'r gangen.
Y tu ôl iddi y mae Megan. Y mae hi'n *plygu*, ac yn *aros* i'r siglen ddod ati i'w *gwthio* wedyn.
Y mae Myfanwy'n *eistedd* ar y ddaear.
Rhwng Megan a Myfanwy y mae Olwen yn *sefyll.*
Y mae Myfanwy ac Olwen yn *edrych* ar y ddwy arall yn *chwarae.*

Ble'r *oedd* y merched (genethod)?
Ble'r *oedd* y siglen?
Beth yr oeddynt (y plant) yn ei wneud?

Dywedwch ac yna ysgrifennwch y brawddegau uchod fel hyn:
Yr oedd Dilys yn eistedd ar y siglen a oedd yn hongian o'r gangen.
Ewch ymlaen.

3. *DILLAD.* Ysgrifennwch enwau dillad y merched (genethod) yma.
Dyma i chwi un gair newydd—brodwaith.
Sylwch ar y brodwaith ar ymyl ffrog Dilys.

Sut ddillad sy ganddynt?

Dyma'r lliwiau—gwyn, llwyd, du.

Dyma'r deunydd—cotwm, lledr.

Y mae Dilys yn gwisgo ffrog gotwm wen, a belt o ledr du amdani.

Y mae brodwaith ar ymyl ei ffrog. Esgidiau bach lledr du sydd am ei thraed, ond nid oes ganddi hosanau am ei thraed heddiw.

4. *Ymarferiadau.*

(1) Ysgrifennwch frawddegau'n disgrifio dillad y merched (genethod) eraill.

(2) Ysgrifennwch frawddegau negyddol am hetiau a chotiau'r merched (genethod).

(3) *Atebwch y cwestiynau hyn:*

(*a*) Ble mae'r genethod yma?
(*b*) Sawl merch (geneth) sydd yma?
(*c*) Beth y maent yn ei wneud?
(*ch*) Pwy sydd ar y siglen?
(*d*) Pwy sy'n gwthio'r siglen?
(*dd*) A ydyw ffrogiau'r merched (genethod) yn fyr?
(*e*) Ai gwallt hir sy ganddynt?
(*f*) Beth sydd ar draed Myfanwy?
(*ff*) P'run ohonynt sy'n gwisgo 'sanau bach gwyn?





5. Newid "amser" y cwestiynau. Ysgrifennwch y cwestiynau yn (3) gan osod "oedd" yn lle "mae," "sydd," "ydyw."

Dyma gwestiwn (*c*)—Beth yr oeddynt yn ei wneud?

## *YMGOM.*

6. Dyma fel yr oedd Dilys yn siarad â'i mam am y chwarae wedi mynd i'r tŷ. Darllenwch a dysgwch ar eich cof.

*Y Fam.* Ble'r ych chwi wedi bod, Dilys?
*Dilys.* Yr wyf i wedi bod yn y coed.
*Y Fam.* Pwy oedd gyda chwi yno?
*Dilys.* Megan, Myfanwy ac Olwen oedd gyda* mi yno.
*Y Fam.* Beth yr oeddech chwi'n ei wneud yno?
*Dilys.* Yr oeddem yn chwarae yno.
*Y Fam.* Beth yr oeddech chwi'n ei chwarae yno?
*Dilys.* Yr oeddem yn chwarae siglen yno.

Ysgrifennwch ymgom fel yr uchod a bod rhywun yn gofyn yr un cwestiynau i chwi.

*Dywedir "hefo mi" yn y Gogledd.

# GWERS 11. (UN AR DDEG.)



*Thomas Gainsborough, R.A.*

Y Bachgen Glas.

## YR UNFED WERS AR DDEG.

Enw'r darlun gyferbyn â'r tudalen hon yw "Y Bachgen Glas." "The Blue Boy" oedd y teitl a roddodd yr artist Syr Thomas Gainsborough arno. Gadewch i ni edrych yn fanwl arno a gofyn y cwestiynau a ddysgwyd gennych eisoes. *Atebwch y cwestiynau hyn:*

1. *LLE.*

   Ble mae'r bachgen yn sefyll? Beth sydd o dan ei draed? Beth sydd y tu ôl iddo?

2. *MAINT a FFURF.*

   Sut fachgen yw hwn—bachgen mawr ynteu bachgen bach? A ydyw'n dal neu'n fyr? Bachgen tew ynteu bachgen tenau yw?

3. *LLIW.*

   Beth yw lliw | ei ddillad?
   ei goler?
   ei hosanau?
   ei esgidiau bach?
   ei wallt?
   ei lygaid?
   ymyl ei got?
   y bluen sydd ar ei het?

4. *DEUNYDD.* Sidan yw deunydd dillad y bachgen hwn.

   Y mae'i got, a'i drowsus, a'r fantell (clogyn) sydd ar ei fraich wedi'u gwneud o sidan glas.
   Y mae'i goler wedi'i wneud o liain main, ac y mae'r dorch lawes (ar flaenau llewys ei got) wedi'i gwneud o liain main hefyd.
   Y mae'i hosanau wedi'u gwneud o sidan glas hefyd, ond nid ydynt mor las â'i ddillad.

5. Ysgrifennwch y disgrifiad sydd yn 4, gan ddweud sut ddillad OEDD gan y Bachgen Glas.

## GWERS 12. (DEUDDEG.)

# Actau yn ystod y Dydd.

Nid oes dim darluniau i'r wers hon. Paham ? Wel, am eich bod yn gwybod yr actau hyn: cysgu, codi, chwarae, cerdded, rhedeg, tynnu dillad, gwisgo, darllen, ysgrifennu, bwyta, yfed, mynd, dod, agor, cau, ymolchi, penlinio, dysgu, disgyn (mynd i lawr), esgyn—dringo (mynd i'r lan), eistedd.

*Cwestiynau.* Dysgwch y rhain:

| | |
|---|---|
| Beth yr ydych chwi'n ei wneud ? | yn awr ? |
| | yn y bore ? |
| | yn y prynhawn ? |
| | yn y nos ? |
| | yn ystod y dydd ? |

Darllenwch y brawddegau hyn gan osod yr act iawn ym mhob brawddeg.

Dewiswch o'r actau uchod.

| | | |
|---|---|---|
| 1. Yr wyf i'n | cysgu | yn y gwely. |
| | | o'r gwely. |
| | | wrth erchwyn y gwely. |
| | | ar fy nhraed. |
| | | fy nillad nos. |
| | | fy nillad dydd. |
| | ymolchi | (ymhle ?) |
| | | dros y grisiau i'r gegin. |
| | | "Bore Da" wrth fy . . . |
| | | wrth y bwrdd yn y gegin. |
| | | brecwast. |





| | | |
|---|---|---|
| 2. Yr wyf i'n | codi | oddi wrth y bwrdd. |
| | | fy nghap neu fy het. |
| | | i'r ysgol. |
| | | ar y ffordd. |

| | | |
|---|---|---|
| 3. Yr wyf i'n | cyrraedd | yr ysgol. |
| | | yn yr iard. |
| | | i mewn i'r ysgol. |
| | | yn yr ysgol. |
| | | adref o'r ysgol i ginio. |
| | | i'r ysgol eto. |
| | | adref o'r ysgol i de. |

| | | |
|---|---|---|
| 4. Nid wyf i'n | | i'r ysgol ar ôl te. |
| Yr wyf i'n | | rhwng te a swper. |
| Ar ôl swper yr wyf i'n | | i'r gwely. |

5. *Paragraffau.*


Dysgwch y geiriau hyn: Yna, wedyn, wedi, Ar ôl hyn.

Dyma'r set gyntaf o'r brawddegau yn y wers hon mewn paragraff:

Yr wyf i 'n cysgu yn y gwely. Wedi codi yr wyf yn penlinio wrth erchwyn y gwely. Ar ôl codi ar fy nhraed yr wyf yn tynnu fy nillad nos ac yna yr wyf yn gwisgo fy nillad dydd.

*Ysgrifennwch* baragraffau o'r tair set arall o'r brawddegau sydd yn y wers hon.

Trowch i dudalen 50 am ymarferiad 6.



1. *Darllenwch.*

Dyma lun y teulu wrth y bwrdd.
Na; nid yw'r teulu i gyd wrth y bwrdd. Dim ond y tad a'r fam a'r ferch sydd wrth y bwrdd.
Y mae'r bachgen yn dod i mewn i'r ystafell trwy'r drws yn awr.

2. *Yr Ystafell.*

Yr ydych yn gwybod enwau'r pethau sydd yn yr ystafell hon, onid ydych? Yn awr dysgwch eu henwau yn *Unigol* a *Lluosog.*





llawr—lloriau; bwrdd—byrddau; cloc—clociau; drws—drysau; ffenestr—ffenestri; cadair—cadeiriau; llen—llenni, (Y llenni sy'n hongian dros ochrau'r ffenestr), dreser.

3. Gofynnwch y cwestiwn Ble mae? am bob un o'r pethau uchod, ac wedyn atebwch hwynt.

4. Atebwch y cwestiynau hyn:

(1) Beth sydd ar ganol y llawr?
(2) Beth sydd wrth ochr y ffenestr?
(3) Beth sydd yn erbyn y wal?
(4) Beth sydd ar y dreser?
(5) Beth sy'n hongian dros ochrau'r ffenestr?
(6) Beth sydd ar agor?

5. *Y Bwrdd.*

(1) Enwch y llestri sydd ar y bwrdd.
(2) Enwch y bwydydd sydd arno. Beth sydd i'w yfed?
(3) Beth sydd ar y bwrdd o dan y llestri?

*Atebwch y cwestiynau hyn:*

(1) Ble mae'r bwrdd? (2) Beth yw ei faint?
(3) Beth yw ei ffurf? (4) Beth yw lliw'r lliain a'r llestri?
(5) Beth yw ffurf y cerrig ar y llawr?
(6) O beth y mae'r ddreser wedi'i gwneud?

6. Dychmygwch eich bod wedi bod yn yr ystafell hon. Disgrifiwch hi gan ddechrau fel hyn:

Yr oedd yn ystafell fawr. Ar ganol y llawr yr oedd bwrdd mawr sgwâr.

Ewch ymlaen.

# Bwydydd a Diodydd.

Edrychwch ar y llun yn y wers ddiwethaf eto.

Pa fwyd a diod sydd ar y bwrdd? Ar y bwrdd y mae bara 'menyn, jam a ffrwythau. Yn y tebot ac yn rhai o'r cwpanau y mae te, ac yn y jwg y mae llaeth (llefrith).

1. *Lle'r personau wrth y bwrdd a'r pethau ar y bwrdd.*

Gorffennwch y paragraff hwn sy'n disgrifio'r bwrdd yn y llun.

Y Bwrdd Brecwast.

Dyma'r teulu ——— y bwrdd. Y mae'r fam yn eistedd *wrth ben y bwrdd*, ac y mae'r tad yn eistedd *wrth y pen arall*. Y mae Mair yn eistedd —— ——— y bwrdd, ond nid yw Gwilym yn eistedd ——— y bwrdd eto. Y mae ef yn dod i mewn ——— drws yn awr.

Y mae llestri a bwyd —— y bwrdd. Ar un pen i'r bwrdd —— ——— y fam y mae (enwch y pethau). O ——— Mair a'i thad y mae plat a chwpan a soser. Y mae dysgl fawr â ffrwythau arni ar ——— y bwrdd. Y mae bara 'menyn —— y plat ar ——— y bwrdd, a ——— y ddysgl ffrwythau a'r bara 'menyn y mae dysgl fach â jam a llwy ynddi.

Nid oes dim cig nac wyau i frecwast y bore yma.

2. Tynnwch blan o'r bwrdd brecwast a oedd yn eich tŷ chwi'r bore yma ac wedyn ysgrifennwch frawddegau am y plan gan ddechrau fel hyn:

Ar y bwrdd brecwast yn ein tŷ ni'r bore yma yr *oedd* . . .

Ewch ymlaen.





3. *DISGRIFIO.* Ysgrifennwch enwau'r pethau a oedd ar eich bwrdd brecwast chwi'r bore yma, ac ar ôl pob enw ysgrifennwch ddisgrifeiriau'n dweud maint, ffurf, lliw, a deunydd pob un, e.e., Cwpan bach, crwn, glas a gwyn, llestr.

Ewch ymlaen.

4. *Cwestiynau.*

(1) Sawl pryd o fwyd sydd bob dydd yn eich tŷ chwi?

(2) Beth yw eu henwau?

(3) Beth yr ydych chwi'n ei fwyta i frecwast?

(4) Beth yr ydych chwi'n ei fwyta i de ac i swper?

(5) Beth yr ydych chwi'n ei yfed amser brecwast ac amser te?

5. *Blas.*

Dyma enwau tri pheth a ddefnyddir i roddi blas ar ein bwyd: halen, pupur, finegr.

Dysgwch y brawddegau hyn:

Y mae halen yn hallt.

Y mae pupur yn bybyr.

Y mae finegr yn sur.

GWERS 15. (PYMTHEG.)

# Personau a Lleoedd.



Tadcu—Taid.



Mamgu—Nain.

1. Ewch dros Wers 22, *Llwybr y Gymraeg I* a Gwers 11 *Llwybr y Gymraeg II* unwaith eto ac wedyn ewch ymlaen â'r wers hon.

2. *Dyma'r perthnasau.* Dysgwch hwynt yn dda.

   tad, mam, brawd (brodyr), chwaer (chwiorydd), tadcu, taid; mamgu—nain; ewythr, modryb, cefnder, cyfnither.

   Ysgrifennwch y brawddegau hyn yn llawn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Y mae gennyf i | dad. | ——— | yw enw fy nhad. |
| | fam. | ——— | yw enw fy mam. |
| | dadcu. | ——— | yw enw fy nhadcu. |
| | daid | ——— | yw enw fy nhaid. |
| | famgu. | ——— | yw enw fy mamgu. |
| | nain. | ——— | yw enw fy nain. |
| | frawd. | ——— | yw enw fy mrawd. |
| | chwaer. | ——— | yw enw fy chwaer. |
| | ewythr. | ——— | yw enw f'ewythr. |
| | fodryb. | ——— | yw enw fy modryb. |
| | gefnder. | ——— | yw enw fy nghefnder. |
| | gyfnither. | ——— | yw enw fy nghyfnither. |





3. *Ble'r ych chwi'n byw?* Ble mae ef (hi) yn byw?

   Enwau lleoedd. Dywedwch y rhain a sylwch sut y mae sillebu neu sbelio'r enwau ar ôl yn, yng, ac ym.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdâr | —yn Aberdâr. | Bangor | —ym Mangor. |
| Caernarfon | —yng Nghaernarfon. | Dowlais | —yn Nowlais. |
| Goginan | —yng Ngoginan. | Llanelli | —yn Llanelli. |
| Merthyr | —ym Merthyr. | Pwllheli | —ym Mhwllheli. |
| Rhydaman | —yn Rhydaman. | Tregaron | —yn Nhregaron. |

4. *Dywedwch ac ysgrifennwch* yn, ym, neu yng, o flaen yr enwau lleoedd hyn:

   Caerdydd, Porthcawl, Trefriw, Bethesda, Llanwrtyd, Dinbych, Machynlleth, Gorseinion, Rhostryfan.

5. *Atebwch y cwestiynau hyn:*

   (1) Enw ynteu rhif sydd ar eich tŷ chwi?
   (2) Beth yw'r enw neu'r rhif sydd arno?
   (3) Beth yw enw'r stryd neu'r heol?
   (4) Beth yw enw'ch pentref neu'ch tref neu'ch dinas chwi?
   (5) Ble mae'ch perthnasau eraill (heblaw eich tad a'ch mam) yn byw?

   Atebwch fel hyn:

   Y mae fy nhadcu (nhaid) yn byw ym Mhontypridd.
   Ewch ymlaen.

6. *Diffinio.*

   Pwy yw'ch tadcu (taid)? Tad fy nhad yw fy nhadcu.
   mamgu (nain)?

   Gofynnwch y cwestiwn ac atebwch ef am bob un o'ch perthnasau.

GWERS 16. (UN AR BYMTHEG.)

# Adeiladau.



Yr Eglwys hon.



Y Capel hwn.




Y Banc hwn.





Y Siop hon.




Y Llythyrdy hwn.




Y Sinema hon.



Y Castell hwn.



Yr orsaf hon.



YR UNFED WERS AR BYMTHEG.

1. *ENWAU.* Dysgwch enwau'r adeiladau sydd yn y darluniau yn Unigol a Lluosog.

eglwys—eglwysi; capel—capeli; banc—banciau; siop—siopau; llythyrdy—llythyrdai; sinema—sinemau; castell—cestyll; gorsaf—gorsafoedd.

*Rhifo.* Y mae'n rhaid i chwi wybod hyn os ydych i ateb y cwestiwn: Sawl ——— sydd yn eich tref chwi?

*Dysgwch.* un eglwys. un capel. un banc.
dwy eglwys. dau gapel. dau fanc.
tair eglwys. tri chapel. tri banc.
pedair eglwys. pedwar capel. pedwar banc.
un orsaf, dwy orsaf. un, dwy, tair, neu bedair sinema.
un castell, dau gastell, tri chastell neu bedwar castell.

2. *LLE.* Ble mae'r adeiladau hyn yn eich tref, neu'ch pentref, neu'ch dinas chwi?

Atebwch fel hyn:

Y mae tri chapel ac un eglwys yn ein pentref ni.
Y mae Moreia (y Capel Methodist) yn heol ———.
Y mae Soar (Capel yr Annibynwyr) yn heol ———.
Y mae Noddfa (Capel y Bedyddwyr) yn heol ———.
Y mae Eglwys Dewi Sant yn heol———.

Ewch ymlaen i ddweud ble mae'r adeiladau eraill.

3. Trowch i dudalen 50 am ymarferiad 3.

## GWERS 17. (DWY AR BYMTHEG.)

# Siopau a Siopa.




Groser.




Cigydd.



Esgidiau.




Ffrwythau.




Pysgod.




Melysion.



Dilledydd.




Fferyllydd.




Siop Lyfrau.



## YR AIL WERS AR BYMTHEG.

1. *ENWAU.* Dyma enwau'r siopau sydd yn y darluniau: siop y groser, siop ddillad (siop y dilledydd), siop felysion, siop ffrwythau (siop y ffrwythydd), siop y cigydd, siop esgidiau, siop bysgod, siop lyfrau (siop y llyfrwerthwr), siop y fferyllydd.

   Ysgrifennwch enwau'r siopau hyn yn yr un drefn ag y maent yn y darluniau, fel hyn:

   (1) Siop y groser yw hon. (2) Siop y ——— yw hon.
   Ewch ymlaen.

2. *ACTAU.* Dysgwch yr actau hyn: Gwerthu, prynu, talu, wrth ddarllen y brawddegau hyn:

   Y mae pob siopwr yn *cadw* siop ac y mae'n gwerthu nwyddau yn ei siop.

   I bwy y mae'r siopwr yn gwerthu ei nwyddau?

   Y mae'n gwerthu'r nwyddau i'r cwsmer. Y cwsmer sy'n prynu ac yn talu am y nwyddau.

   *Atebwch y cwestiynau hyn.* (Rhoddwch enw'r siop a'r siopwr.)

   (1) Ble'r ych chwi'n prynu melysion?
   (2) Ble'r ych chwi'n prynu esgidiau?
   (3) Ble mae'ch mam yn prynu bwyd?
   (4) Ble mae'ch tad yn prynu ffisig (moddion).
   (5) Ble mae'ch mam yn prynu dillad ac esgidiau i chwi?

3. *ARIAN.*

*Cwestiwn.* A pheth yr ydym yn talu am y nwyddau?
Yr ydym yn talu am y nwyddau ag arian.

Dysgwch y tabl hwn:

dimai ($\frac{1}{2}$c.) ceiniog (1g.). swllt (1s.). punt (P1, £1).

| | |
|---|---|
| Y mae dwy ddimai mewn ceiniog. | Dwy ddimai sy mewn ceiniog. |
| Y mae deuddeg ceiniog mewn swllt. | Deuddeg ceiniog sy mewn swllt. |
| Y mae ugain swllt mewn punt. | Ugain swllt sy mewn punt. |

4. Disgrifiwch brif stryd eich tref chwi a dywedwch pa adeiladau a siopau sydd ar y llaw dde ac ar y llaw chwith (aswy) iddi.

---

## GWERS 18. (DEUNAW.)



Llygoden.



Cath ar y Mat.





# Anifeiliaid ac Adar.



Ceffyl.



Mochyn.



Dafad ac Oen.



Llwynog.



Iâr.



Hwyaden.



Robin Goch.

1. *ENWAU.*

Dyma enwau'r anifeiliaid a'r adar sydd yn y lluniau—yn unigol a lluosog:

ceffyl—ceffylau; oen—ŵyn; dafad—defaid; iâr—ieir; llwynog—llwynogod; mochyn—moch; hwyaden—hwyaid; llygoden—llygod; cath—cathod; aderyn—adar.





Ysgrifennwch y brawddegau hyn yn llawn:

Anifeiliaid yw ——, ——, ——, ——, ——, ——, a ——.

Adar yw ——, ——, a ——.

Enwch adar ac anifeiliaid eraill.

2. *Ble mae?* Defnyddiwch y geiriau hyn i ddweud ble mae pob un o'r anifeiliaid a'r adar sydd yn y lluniau:

llyn, cae, twlc (cwt), stabl, llwybr, fel hyn:

Y mae'r iâr yn sefyll ar y llwybr yn y cae.

Ewch ymlaen.

3. *SWN yr anifeiliaid a'r adar.* (*a*) Dysgwch; (*b*) Arddywediad.

Dysgwch y brawddegau hyn ar eich cof:

Y mae aderyn yn canu.
Y mae dafad ac oen yn brefu.
Y mae ceffyl yn gweryru.
Y mae mochyn yn rhochian.
Y mae llygoden yn gwichian.
Y mae cath yn mewian.
Y mae ci'n cyfarth.
Y mae llwynog yn cyfarth.
Y mae iâr yn clochdar.
Y mae hwyaden yn cwacian.

4. *Beth sy'n tyfu ar yr anifeiliaid a'r adar?* Dysgwch y brawddegau hyn:

Plu sy'n tyfu ar yr adar.
Gwlân sy'n tyfu ar y defaid a'r ŵyn.
Ffwr sy'n tyfu ar y llwynogod.
Blew sy'n tyfu ar y cathod a'r cŵn.
Rhawn sy'n tyfu ar y ceffylau.

5. Dywedwch ac yna ysgrifennwch dair brawddeg am le, maint a lliw pob un o'r anifeiliaid a'r adar sydd yn y lluniau.

## GWERS 19. (PEDAIR AR BYMTHEG.)

# Symud—Teithio.



Bws.



Bachgen ar feisicl.




Modur.



Car Trydan.



Llong Ager.



Eroplên.



Trên.



Marchogaeth Ceffyl.



Rhwyfo mewn Cwch.



## Y BEDWAREDD WERS AR BYMTHEG.

1. *ENWAU.* Dyma luniau naw peth y mae pobl yn teithio neu'n mynd o le i le ynddynt neu arnynt. Dysgwch eu henwau'n unigol a lluosog.

bws—bysiau; modur—moduron; beisicl—beisiclau, trên—trenau; eroplên—eroplenau; cwch—cychod; car-trydan—ceir-trydan; llong ager—llongau ager.

2. *BERFAU* (Actau).

Yr wyf i'n (Yr ydym ni 'n) mynd mewn bws (modur, car-trydan, llong, trên, eroplên, cwch).

Yr ydym yn teithio ynddynt.

Y mae'r bachgen yn marchogaeth y ceffyl.
yn marchogaeth y beisicl.

*Dysgwch y berfau hyn gyda'r enwau:*

bws—rhedeg; modur—rhedeg; car-trydan—rhedeg; trên—rhedeg; llong—hwylio; cwch—hwylio; eroplên—hedeg. ceffyl—cerdded, rhedeg, carlamu; beisicl—rhedeg.

*Ble? Ymhle?* Defnyddiwch yr ymadroddion hyn gyda'r berfau uchod i orffen y brawddegau hyn:

ar y ffordd fawr, ar y ffordd haearn, ar y ffordd drydan, dros y môr, ar yr afon, yn yr awyr, trwy'r awyr.

Y mae'r bws a'r modur yn —— ar — ——.
Y mae'r ceir trydan yn —— ar y —— ——.
Y mae'r trên yn —— ar — —— ——.
Y mae'r llongau'n —— — ——.
Y mae'r bechgyn yn rhwyfo mewn cwch — — ——.
Y mae'r bachgen yn —— ceffyl — — — ——.
Y mae'r bachgen yn —— beisicl — — — ——.

GWERS 12. Ymarferiad 6.

6. *LLE'R ACTAU.*

Gorffennwch y brawddegau hyn fel atebion i'r cwestiynau:

Ble'r ydych chwi'n cysgu? Yr wyf i'n . . . . .
Ble'r ydych chwi'n ymolchi? Yr wyf i 'n . . . . .
Ble'r ydych chwi'n chwarae? Yr wyf i'n . . . . .
Ble'r oeddech chwi'n cysgu neithiwr? Yr oeddwn i'n . . . . .
Ble'r oeddech chwi'n bwyta brecwast y bore yma? Yr oeddwn i'n . . . . .
Ble'r oeddech chwi'n cerdded ar y ffordd i'r ysgol heddiw? Yr oeddwn i'n . . . . .

---

GWERS 16. Ymarferiad 3.

3. *ACTAU.*

prynu, mynd a dod o'r trên, gweld darluniau, dodi a chodi arian, addoli, postio, edrych, cerdded, eistedd, aros.

*Cwestiwn.* (Cofiwch ddysgu pob cwestiwn yn dda.)

Beth yr ydych chwi'n ei wneud yn, neu wrth bob un o'r adeiladau hyn? Gorffennwch y brawddegau yma:

Yr wyf i 'n ——— yn y capel neu'r eglwys.
Yr wyf i 'n ——— a ——— ——— yn y banc.
Yr wyf i 'n ——— a ——— ——— yn y sinema.
Yr ydym yn ——— bwyd mewn siop.
Yr ydym yn ——— stamp ac yn ——— llythyr mewn llythyrdy.

Beth yr oeddech chwi'n ei wneud yn yr orsaf?
Yr oeddwn yn ——— am y trên yn yr orsaf.

Beth yr oeddech chwi'n ei wneud yn y castell?
Yr oeddwn yn ——— o amgylch ac yn e——— ar y castell.



# ATODIAD.


GWERSI 20-24.

YR ESCIMO.

## PENNOD I.

# Tŷ Rhyfedd—Tŷ'r Escimo.

## Y TU ALLAN IDDO.



1. *Darllenwch.*

Dyma dŷ od. Yn y Gogledd oer y mae'r tŷ od hwn. Tŷ bychan yw ar ffurf basn â'i wyneb i waered. Nid yw wedi'i wneud o gerrig neu briddfeini a morter fel ein tai ni, ond tŷ wedi'i wneud o iâ (rew) yw.

Nid oes to na ffenestr na simnai i'r tai yng Ngwlad yr Escimo. Nid oes drws i fynd i mewn i'r tŷ ond y mae twll bach isel yn ei waelod. Nid yw'r plant a'r bobl sy'n byw yma'n cerdded i mewn i'r tŷ, ond rhaid iddynt blygu a mynd i mewn ar eu dwylo a'u traed neu ar eu penliniau (hynny yw—ar eu pedwar). Nid tŷ mewn stryd yw hwn chwaith. Nid oes strydoedd yng Ngwlad yr Escimo—ond nifer o gabanau yma ac acw sydd yno.



2. *Dysgwch y ffurfiau hyn.*

Tŷ bychan yw. Nid yw mewn stryd. Nid oes to arno.

Ysgrifennwch nifer o frawddegau syml fel yr uchod am dŷ yr Escimo.

3. *Atebwch y cwestiynau hyn:*

(1) Ble mae'r tŷ hwn?
(2) Beth yw ei faint?
(3) Beth yw ei ffurf?
(4) O beth y mae wedi'i wneud?
(5) Sut dŷ yw?
(6) A oes ffenestri a drws i'r tŷ hwn?
(7) Sut y mae'r bobl yn mynd i mewn i'r tŷ hwn?
(8) A ydyw'r tŷ hwn mewn stryd?
(9) A oes strydoedd yng Ngwlad yr Escimo?
(10) Beth sydd yno?

4. *Ymarferiad newydd anodd.*

Dychmygwch eich bod wedi bod am dro yng Ngwlad yr Escimo, ac wedi dod yn ôl, eich bod yn disgrifio'r tŷ wrth eich ffrindiau.

Yn lle dweud y geiriau "mae," "yw," "oes," "sydd," dywedwch "oedd" fel hyn: Gorffenwch y brawddegau.

Dyna dŷ od oedd. Tŷ bychan oedd. Nid oedd wedi'i wneud o gerrig, ond tŷ wedi'i wneud o iâ (rew) oedd. Nid oedd to na . . . . .

Ewch ymlaen, ac wedi i chwi orffen yr ymarferiad, dysgwch y disgrifiad ar eich cof a dywedwch ef wrth eich tad a'ch mam.

PENNOD 2.

# Tŷ'r Escimo.

## Y TU MEWN IDDO.



Morfil. Morlo.

1. *Darllenwch.*

Os yw'r tu allan i dŷ'r Escimo yn od iawn, y mae'r tu mewn iddo yn od hefyd.

Dim ond un ystafell sydd yn y tŷ, ac nid oes na bwrdd, na chadair ynddi. Ble mae'r teulu'n eistedd, tybed? Y maent yn eistedd ar fainc o iâ (rew) yn erbyn y wal iâ (mur rhew) o amgylch yr ystafell. Ar y fainc hon y mae llawer o grwyn anifeiliaid ac ar y fainc hon y maent yn cysgu yn y nos.

Nid oes lle tân yn y wal fel sydd yn ein tŷ ni, ond y mae stôf fechan o garreg ar ganol y llawr. Nid tân glo na thân coed sydd yn y stôf ond tân olew, ac olew oddi wrth y morfil a'r morlo yw. Nid ydynt byth yn diffodd y stôf, ond y mae'n olau trwy'r dydd a'r nos. Ar y stôf hon y maent yn coginio'u bwyd.



2. *Ymarferiadau.*

Atebwch y cwestiynau hyn:

(1) Sawl ystafell sydd yn nhŷ'r Escimo?
(2) A oes celfi fel ein celfi ni yno?
(3) Ble mae'r teulu'n eistedd?
(4) Ble maent yn cysgu?
(5) O beth y mae'r fainc wedi'i gwneud?
(6) Beth sydd ar y fainc?
(7) A oes grât yn nhŷ'r Escimo?
(8) Beth sydd yno'n lle grât?
(9) Sut dân sydd yn y stôf?
(10) O ble y maent yn cael olew i'r stôf?

3. Dychmygwch eich bod wedi gweld y tu mewn i dŷ'r Escimo.

Disgrifiwch yr ystafell gan ddechrau fel hyn:

"Dim ond un ystafell *oedd* yn y tŷ."

Ewch ymlaen ac wedi gorffen yr ymarferiad dysgwch ef ar eich cof.

PENNOD 3.

# Dillad yr Escimo.




1. *Darllenwch.*

Y mae'r bobl sy'n byw yng Ngwlad yr Escimo'n fyr—yn fyrrach na ni sy'n byw yng Nghymru. Wynebau crwn, bochau tewion, a gwallt du syth sy ganddynt. Nid yw eu hwynebau'n wyn fel ein hwynebau ni, ac nid ydynt yn ymolchi. Nid ydynt byth yn defnyddio dŵr a sebon.

Nid ydynt yn gwisgo dillad o frethyn fel ni. Y mae'u dillad wedi'u gwneud o groen morlo. Y mae gan yr Escimo bach ddau bâr o ddillad amdano. Y mae'n gwisgo'r pâr cyntaf â'r blew at ei groen, a'r pâr uchaf â'r blew y tu allan.



Y mae'r bechgyn a'r merched (genethod) yn gwisgo'r un fath â'i gilydd, ac y mae pob un ohonynt yn edrych yr un fath â'i gilydd—bron fel pêl fach o flew. Dim ond trwyn, llygaid a gwefusau'r Escimo bach sydd yn y golwg.

2. *Atebwch y cwestiynau hyn:*

(1) Pobl fyr ynteu pobl dal yw'r Escimo?

(2) Sut wynebau, bochau a gwallt sy ganddynt?

(3) Beth yw lliw eu hwynebau?

(4) A ydynt yn ymolchi?

(5) A ydynt yn gwisgo dillad fel ein dillad ni?

(6) O beth y mae'u dillad wedi'u gwneud?

(7) Sawl pâr o ddillad sydd gan yr Escimo bach, a sut y mae'n eu gwisgo?

(8) Sut y mae'r bechgyn a'r merched yn gwisgo?

(9) Pa rannau o gorff yr Escimo bach sydd yn y golwg?

3. Dychmygwch eich bod wedi gweld plant yr Escimo.


Dywedwch sut rai oeddynt. Dechreuwch fel hyn:

"Yr oedd y bobl oedd yn byw yng Ngwlad yr Escimo'n fyr—yn fyrrach na'r bobl sy'n byw yn ein gwlad ni. Wynebau crwn, bochau tewion, a gwallt du syth a oedd ganddynt."

Ewch ymlaen, ac wedi gorffen y disgrifiad dysgwch ef ar eich cof.

PENNOD 4.

# Anifeiliaid a Bwyd yr Escimo.



1. *Darllenwch.*

Nid oes llawer o anifeiliaid yng Ngwlad yr Escimo. Nid oes ceffylau na defaid, na buchod yno, ond y mae ci gan bob Escimo bach. Y ci sy'n tynnu'r car llusg bach sy ganddo, ac y mae'n gyrru'r car fel y bydd gyrrwr yn gyrru ceffyl a chart (ceffyl a throl) yn ein gwlad ni. Ond nid yw'r Escimo byth yn chwipio'r ci—dim ond clecian y chwip arno.

Y mae rhai anifeiliaid yno, sef y morfil a'r morlo ac ambell arth a charw.

Nid oes ffyrdd, na siopau, na ffermydd yno. Nid ydynt yn bwyta bara a bwydydd eraill fel ni, ond y maent yn bwyta cig yr anifeiliaid a physgod.



Nid ydynt yn prynu bwyd na dillad. Y mae'r tad a'r bechgyn yn hela a physgota am eu bwyd. Y mae'r fam a'r merched yn gwneud eu dillad o groen y morlo, ac y maent yn gwnïo'r croen ag edau o groen carw a nodwydd o asgwrn.

2. *Ymarferiadau.*

Dychmygwch eich bod wedi bod yn byw gyda'r Escimo, ac atebwch y cwestiynau hyn:

(1) Pa anifeiliaid oedd yng ngwlad yr Escimo?
(2) Pa anifail a oedd ganddo ag sy gennym ni?
(3) A oedd siopau a ffyrdd a ffermydd yno?
(4) A oeddynt yn bwyta'r un bwydydd â ni?
(5) Beth yr oeddynt yn ei fwyta?
(6) A oeddynt yn prynu dillad?
(7) Pwy oedd yn gwneud eu dillad?
(8) Â pheth yr oeddynt yn eu gwnïo?

3. Ysgrifennwch yr adran ddarllen gan ddechrau fel hyn:

" Nid oedd llawer o anifeiliaid."

Ewch ymlaen, ac wedi i chwi orffen, dysgwch y disgrifiad ar eich cof fel y gellwch ei adrodd wrth rywun arall.

PENNOD 5.

# Ysgol a Chwaraeon yr Escimo.




1. *Darllenwch.*

Nid oes llawer o ysgolion yng Ngwlad yr Escimo, ac nid yw'r plant yn mynd i'r ysgol bob dydd fel ni. Nid ydynt yn byw yn yr un lle o hyd, ond y maent yn symud o le i le yn yr haf, ac yn y tymor hwnnw y maent yn byw mewn pebyll o grwyn anifeiliaid.

Ond pan fônt yn yr ysgol y maent yn dysgu darllen, ysgrifennu a rhifo. Dysgant rifo wrth gyfrif bysedd eu dwylo a'u traed, ac yna rhifant fysedd y plant nesaf atynt yn y dosbarth. Y mae'r tad yn dysgu'r bechgyn i hela a physgota, ac y mae'r fam yn dysgu'r merched i wnïo dillad a phebyll, ac i wneud bwyd i'r teulu.



Y mae'r plant yn chwarae wrth gwrs, ond nid ydynt yn chwarae'r un chwaraeon â phlant Cymru. Nid ydynt yn chwarae pêl, na thop, na marblau na sgip, na phêl droed na chriced. Ond y mae'r bechgyn a'r merched (genethod) yn rhowlio fel pelau ar y ddaear, ac yn chwarae â'r cŵn bach sy ganddynt. Y mae'r bechgyn yn dysgu hela â phicellau ac â bwa a saethau pan fônt yn ieuainc iawn.

2. *Ymarferiadau.*

Dychmygwch eich bod wedi bod am dro yng Ngwlad yr Escimo ac yna atebwch y cwestiynau hyn:

(1) A oedd ysgolion yno?
(2) A oeddynt yn byw yn yr un lle o hyd?
(3) Beth yr oeddynt yn ei ddysgu yn yr ysgol?
(4) Sut yr oeddynt yn dysgu rhifo?
(5) Beth yr oedd tad yr Escimo bach yn ei ddysgu iddo?
(6) Beth yr oedd y fam yn ei ddysgu i'r merched (genethod)?
(7) Beth yr oeddynt yn ei chwarae?
(8) Beth yr oedd y bechgyn bach yn ei ddysgu pan oeddynt yn ieuainc?

3. Ysgrifennwch yr adran ddarllen gan ddechrau fel hyn:

"Nid oedd llawer o ysgolion yng Ngwlad yr Escimo."

Ewch ymlaen, ac wedi i chwi orffen yr ymarferiad, dysgwch ef ar eich cof, fel y gellwch ei adrodd wrth rywun arall.